

Y Cynllun Sabothol Cenedlaethol – Taflen Asesu Cyfweliad Llafar

Rhif myfyriwr: Kayleigh Young Dyddiad: Ebrill 9fed

Meini Prawf	Methu	Llwyddo		Teilyngdod	Rhagoriaeth	
	0-39	40-49	50-59	60-69	70-79	80-100
Ynganu'n glir a Chymreig ar y cyfan ond rhai enghreifftiau o ynganu anghywir/ Seisnigaidd ar brydiau. Ynganu'n glir a Chymreig gan fwyaf. Ynganu'n gwbl glir a Chymreig.				X		
Brawddegau a phatrymau syml yn gywir. Brawddegau a phatrymau sylfaenol yn gywir; brawddegu'n gywir gan fwyaf ond rhai camgymeriadau ar adegau e.e. dim yn negyddu'n gywir. Brawddegau a phatrymau amrywiol yn gywir. e.e. amrywio gosodiadau a chwestiynau, rhedeg arddodiaid, defnyddio'r frawddeg bwyslais; negyddu'n gywir.				X		
Ffuriau syml y ferf yn gywir gan fwyaf, ansicrwydd ynglŷn ag amrywio'r defnydd o'r ferf h.y. defnyddio ffurfiau/amseroedd anghywir ar adegau Defnydd o'r ferf yn sylfaenol gywir; amrywio amseroedd y ferf gan fwyaf. Defnydd cywir o'r ferf yn gyson gan amrywio amser yn effeithiol a phwrpasol.				X		
Yn llefaru'n bytiog iawn gan adael sawl brawddeg a chymal heb eu gorffen. Yn llefaru'n rhugl, ond yn oedi ar adegau. Yn cwblhau bron pob brawddeg neu gymal. Yn llefaru'n gwbl rugl a diymdrech heb oedi arwyddocaol. Yn cwblhau pob brawddeg neu gymal.			X			
Cywirdeb llafar: defnydd cywir ar y cyfan o'r treigladau, termau, cenedl enwau ac arddodiaid. Cywirdeb llafar: defnydd cywir gan fwyaf o'r treigladau, termau, cenedl enwau ac arddodiaid. Cywirdeb llafar: defnydd cywir o'r treigladau, termau, cenedl enwau ac arddodiaid.			X			
Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu yn syml. Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu yn gryno ac yn bwrpasol. Gallu gwerthuso eu profiadau, eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu yn bwrpasol ac yn effeithiol.				X		

Methu - [] Llwyddo - [] Teilyngdod - [x] Rhagoriaeth - []

Marc: 62

Llofnod tiwtor: Eluned O Grandis

Tystysgrif Raddedig Sabothol – Modiwl 2
2024/25



Ail farciwr:

Y Cynllun Sabothol Cenedlaethol – Taflen Adborth Cyfweiliad Llafar

Rhif	Kayleigh Young
Sylwadau	Llongyfarchiadau ar gyfweiliad hyfryd, Kayleigh! Siaradoch chi’n rhwydd ac yn naturiol heb ddefnyddio nodiadau a gwnaethoch chi ateb bob cwestiwn yn bwyllog a heb drafferth. Roedd eich atebion yn ddiddorol a defnyddioch chi ystod o batrymau’r cwrs (a range of the course patterns) yn gywir e.e. Brawddegau, patrymau ac amser y ferf Rydw i’n teimlo’n drist achos diwedd y cwrs Bydda i’n... Mae dau gi gyda fi. Rydw i’n hoffi garddio. Mae un brawd ac un chwaer gyda fi. Rydw i’n byw yn Aberhonddu. Wythnos diwetha dechreuais i fwyta siocled eto. Ar hyn o bryd rydw i’n tyfu tomatos. Yn Aberhonddu ddoe roedd hi’n rhewi. Fel arfer rydw i’n dysgu Derbyn ond bydda i’n dysgu Blwyddyn 2 felly rydw i’n nerfus iawn. Rydw i’n mwynhau dysgu Mathemateg achos mae’n bwysig dysgu’r plant yn gywir. Gwylio i fy nai yn chwarae rygbi. Wythnos nesa bydd e’n chwarae yn y ffeinal yn y stadiwm glas. Dros y Pasg bydda i’n mynd i weld fy nai yn chwarae rygbi, llawer o arddio. Bydda i’n cerdded llawer achos mae fy nghŵn angen llawer o gadw’n heini. Efallai bydda i’n cwrdd fy ffrind a bydda i’n mynd yn ôl i’r ysgol i baratoi am y tymor nesaf. Ffeindiais i’r pecyn yn anodd. Meddyliais i allwn i ddim ysgrifennu llawer o weithgareddau ond rydw i’n fwy hyderus nawr. Nawr mae treigladau yn iawn. Fy hoff ran ydy mynd ar y traeth bob wythnos achos gallwn i ymarfer siarad Cymraeg gyda S a fy ffrindiau. Mae cymharu’n anodd i fi. Y MDd hwn ydy fy hoff MDd. Roeddwn i’n nerfus felly doeddwn i ddim wedi gofyn digon o gwestiynau yn y canol. Gobeithio bydda i’n dysgu Cymraeg mwy a bob dydd a defnyddio’r patrymau drwy’r dydd a gobeithio bydda i’n helpu fy athrawes Blwyddyn 3 achos bydd hi’n mynd i’r (ar y) cwrs flwyddyn nesa. Gobeithio bydda i’n helpu hi ar y cwrs. Nawr rydyn i’n dechrau’r Siarter Iaith. Targedau’r ysgol ydy defnyddio mwy o siarad yn yr ysgol. Rydw i eisiau helpu gan rannu llawer o syniadau gyda nhw fel patrwm wythnos. Pan fydda i nôl yn yr ysgol hoffwn i,... Bydda i’n dechrau dysgu Tric a Chlic.

	Gobeithio bydda i’n dewis y cwrs ar-lein i barhau siarad Cymraeg. Yn y Gelli Gandryll ar ddydd Sadwrn bob wythnos mae grŵp yn y llyfrgell i siarad Cymraeg i ymarfer felly gobeithio gallwn i ymarfer. Ynganu: Tŷ gwyrdd, hadau, cyflwyno
Canolbwyntiwrch ar y canlynol:	1. Diwedd o’r cwrs > diwedd y cwrs, ar y dechrau o’r blynedd > ar ddechrau’r flwyddyn, ar y dechrau ar y cwrs > ar ddechrau’r cwrs 2. Bydda i’n colli ffrindiau y cwrs 3. Ei enw hi ydy D ac A > Eu henwau nhw ydy D ac A 4. Treigladau: A cerdded > a cherdded 5. Doeddwn i ddim yn dysgu Bl 2 am deng blynedd > dydw i ddim wedi dysgu Bl 2 ers deng mlynedd 6. ‘Yn’ - Rydw i wedi bod dysgu > Rydw i wedi bod yn dysgu, Baswn i ymestyn > Baswn i’n ymestyn 7. Berfau: Gallwn i ddim canu o gwbl > Alla i ddim canu o gwbl, Felly roedd llawer iawn o ymarfer wrth dysgu, Felly bydd y plant, Rydw i eisiau bod yn fwy hyderus i ateb cwestiynau. 8. Sy - Bydda i’n helpu’r athrawes sy’n gyfrifol am Gymraeg, Mae llawer o athro ~~athrawon~~ sy ddim yn siarad Cymraeg o gwbl 9. Ydy’r MDd wedi dy helpu di? Ie / Ydw > Ydy Roedd eich ynganiad yn gywir iawn ar y cyfan a braf oedd eich clywed yn defnyddio geiriau bach oedd yn gwneud i’r sgwrs fod yn naturiol iawn. Parhewch i ymarfer drwy siarad llawer o Gymraeg, gwrando ar y radio, gwyllo S4C, darllen llyfrau, mynd i foreau coffi ayb. Rydych chi wedi gwneud yn dda iawn a phob dymuniad da nôl yn yr ysgol.

Methu	Llwyddo	Teilyngdod	Rhagoriaeth
		X	

Marc: 62

Llofnod tiwtor: Eluned O Grandis
Ail-farciwr: Hedydd Jones